

Y TYST


Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 5 Chwefror 1, 2024 50c.

ARLOESI A BUDDSODDI Prosiect moderneiddio: Ebeneser Dyfnant

O ganlyniad i gefnogaeth gan gronfa Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mae aelodau Ebeneser, Dyfnant wedi gallu moderneiddio gofod addoli'r capel er mwyn ei wneud yn fwy hyblyg. Rydym wedi tynnu'r hen seddau pren i ffwrdd, carpedu'r ardal a gosod cadeiriau newydd cyfforddus yn eu lle.

Yn ogystal â darparu amgylchedd mwy cyfforddus gallwn hefyd newid y gofod yn ôl yr angen: er enghraifft er mwyn galluogi ymarferion corau (côr y capel a Chôr Meibion Dyfnant sy'n ymarfer yn y capel ddwywaith yr wythnos). Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd gan ysgolion lleol a gweithgareddau eraill. Yn ogystal â hynny, mae'r capel yn llawer haws i'w defnyddio nawr i bobl gyda phroblemau symudedd ac anabledd.

Yn bwysig, mae'r gweinidog neu arweinydd oedfa'n yn gallu addasu pethau er mwyn darparu oedfaon arloesol ar y Sul: er enghraifft, trefnu'r cadeiriau mewn cylch i alluogi trafodaeth yn lle oedfa draddodiadol.



Ailgylchu

Diolch byth, nid aeth yr hen seddau yn wastraff. Fel sawl addoldy roedd corneli tywyll naill ochr i'r pulpud wedi arfer troi yn llanast gyda'r holl lyfrau, offerynnau cerdd a llawer o bethau eraill sy'n cynyddu a chwilio am gartref. Gyda hen bren y seddau mae ein saer wedi creu cypyrddau mawr newydd. Maen nhw'n edrych yn wych: fel pe basen nhw wedi bod yno erioed.

Yn fwy diweddar rydym wedi tynnu i ffwrdd seddau ychwanegol yng nghorneli cefn y capel hefyd er mwyn creu gofodau lluniaeth a'i ddefnyddio ar ôl oedfaon a digwyddiadau eraill. Yn wir, fel rhan o'r cynllun hwn rydym yn gobeithio gosod cegin fach ychwanegol yn y dyfodol agos.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Undeb am eu cymorth. Ni fydden wedi gallu ymgymryd â'r prosiect hwn heb eu cefnogaeth hael.

Martin Lloyd
Cadeirydd y diaconiaid

Gweddi Blwyddyn Newydd

Ar ddechrau blwyddyn newydd arall, gadewch i ni greu normalrwydd byd eang sydd yn cefnogi a chysgodi'r naill a'r llall, yn hytrach na pheri ein bod benben â'n gilydd. Wedi llewyrch y Nadolig anghofiwn weithiau fod y Goleuni yn dal yn y nen, a bod y daith yn parhau gan ddoethion pob oes.

Boed i ni arloesi drwy greu hinsawdd garedicach yn ein byd, gan barhau â chynlluniau arloesol a welsom mewn ardaloedd i helpu cyd-ddyn. O wneud hyn fe welwn adfywiad mewn 'cymuned' yn y bröydd hynny. Ail ganfod y gymdeithas a oedd yno ar hyd yr amser, dim ond ein bod ni'n rhy brysur. Boed i ni arloesi drwy fynnu gweld mwy ar y goleuni na'r tywyllwch.

parhad ar dudalen 2



**Arloesi a
Buddsoddi**
Rhaglen
Undeb yr
Annibynwyr
Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol – hyd at £10,000 y flwyddyn dros gyfnod o hyd at 3 blynedd.

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

Betty Evans

Ar 17 Rhagfyr 2023, bu farw Mrs Betty Evans, Gwelfor, Bro Ddewi, Ffos-y-ffin yn naw deg a phedair blwydd oed. Roedd Betty yn un o drigolion cyntaf a hynaf Bro Ddewi a hi oedd yn byw yn rhif un. Yno ym Mro Ddewi ar ôl treulio cyfnod yn y Dderwen-gam, yr ymgartrefodd Betty a Tom ei gŵr. Dywedai bob amser mor ffodus y bu hi gael Tom, neu Twm fel y galwai hi ef, yn ŵr iddi. Bu'r briodas honno ar 14 Tachwedd 1952 yn briodas dda. Roedd Tom yn graig i Betty.

Collodd Betty ei mam yn ifanc a bu'n rhaid iddi hi fel yr ail hynaf o saith o blant, ofalu am y plant iau am gyfnod. Felly bu'n rhaid iddi adael yr ysgol bron cyn ei bod yn un ar ddeg oed. Er na chafodd Betty fawr o addysg ffurfiol, roedd ei Chymraeg yn raenus a gloyw, ac amheuthun a oedd gwranddo ar ei hymadroddion a'i geirfa gyfoethog. Y mae'n resyn na chofnodwyd rhai o'r ymadroddion a'r cystrawennau hyn sydd erbyn hyn yn gyflym ddiiflannu o'n hiaith.

Rhiwbren Fawr

Ar ôl cyfnod yn gofalu am eu brodyr a'u chwiorydd iau, fe aeth Betty fel nifer o ferched eraill y cyfnod i wasanaethu fel morwyn. Ni phallodd â sôn byth am y lle da a gafodd ar fferm y Rhiwbren Fawr pan yn forwyn yno. Yn y Rhiwbren Fawr y dysgodd, gan Mrs Caro James sut i fyw yn iawn; sut i goginio a sut i hulo bwrdd. Nid anghofiodd fyth y gwersi hynny ac ni phallai â sôn am gareidgrwydd ac amynedd Mrs James. Yno hefyd y cyfarfu â Tom a oedd yn was yn y Rhiwbren ar yr un pryd. Cyfeiriai at y cyfnod yn y Rhiwbren Fawr fel cyfnod hapus a llawn hwyl a theimlai ei bod yn rhan o'r teulu.

Derwen-gam

Ar ôl priodi ac ymgartrefu yn y cartref cyntaf yn y Dderwen-gam, fe anwyd merch fach i Betty a Tom ar 10 Mawrth 1959. Roedd y ferch fach Meirwen yn blentyn holliach a llawn bywyd. Ond ar Ionor 15 1962, a hynny yn frawychus o sydyn a dirybudd, bu farw'r un fach yn ddwy flwydd a deg mis oed. Bu Tom yn graig i Betty yn y cyfnod hwn ond soniai bob amser hefyd am y graig a fu gweinidog Llwynceilyn, sef y Parchedig Edwin Pryce Jones, iddi hi ac i Tom yn y cyfyngder hwnnw. Ni phallai â sôn i'r Parchedig, fel y galwai ef, a'i wraig gerdded trwy storm o eira o'r Mans yn

Llwynceilyn i Welfor. Adroddai am ei eiriau sef bod y storm yng Ngwelfor yn llawer gwaeth na'r un a oedd yn rhuo y tu allan. Nid anghofiodd Betty hynny erioed ac roedd ei hymlyniad wrth y gweinidog a'i ffyddlondeb i gapel Llwynceilyn yn bwysig yn ei bywyd hyd y diwedd. Ond yn fwy na hynny, roedd ei ffydd bod yna fyd arall yn arbennig o real iddi. Cadwodd teulu'r Parchedig Pryce Jones gysylltiad agos â Betty a galwent i'w gweld yn fynych.

Gwelfor

Yn ystod y cyfnodau hir a dreuliodd Betty yn yr ysbyty gwnaeth ffrindiau mynwsol o'r nyrsys ac o'i chyd-gleifion. Galwent i'w gweld yn gyson yng Ngwelfor a hynny am flynyddoedd ar ôl i Betty adael yr ysbyty. Gwnaeth ffrindiau mynwsol, yn yr un modd, o nyrsys cymunedol a alwai i'w gweld yng Ngwelfor ac fe gaent i gyd groeso twymgalon yno. Pan fyddai yn yr ysbyty, hwyl a sbri a fyddai yn ei nodweddu ac ni chwynai fyth am ei chyflwr ac ni surodd. Ni hoffai Betty ddim gwell na chael cwmni i'w chartref am banded a sgwrs. Byddai galw gyda Betty yn donic, a hi fyddai'n codi calon pawb. Byddai hi a Tom wrth eu bodd yn gofalu am luniaeth i weinidogion gwadd a ddeuai i bregethu i gapel Llwynceilyn.

Milltir sgwâr

Gyda marwolaeth Betty, ni ellir llai na theimlo fod cyfnod yn dod i ben. Brenhines ei haelwyd a'i milltir sgwâr oedd Betty. Roedd y filltir sgwâr honno, a oedd yn ymestyn o'r Dderwen-gam i Llwynceilyn ac i Ffos-y-ffin, yn ddigon i Betty. Rhyfeddai a'i llygaid glas yn pefrio, pan fyddai'r sgwrs yn troi i sôn am wledydd pell. Roedd yr iaith Gymraeg a chenedlaetholdeb Cymreig yn bwysig iddi ac roedd ei ffydd mewn byd arall yn real iawn iddi. Gyda'r holl sôn am bwysigrwydd cymuned Gymraeg a Chymreig heddiw, roedd bywyd Betty'n ddrych o'r gymuned honno yn ei Chymraeg coeth a chyfoethog; ei lletygarwch dihafal; ei hwyl a'i hymroddiad i bob gweithgarwch lleol a rhaid cofio am ei mwynhad yng nghwmni Sefydliad y Merched yn ogystal ag yng nghymdeithas capel Llwynceilyn.

Yn ei blynyddoedd olaf yn ei chartref, fe ofalodd Eiddwen a Marina yn dyner iawn am Betty ac oni bai am eu gofal nhw ni fyddai wedi aros cyhyd yn ei chartref.

Coffa da am Betty. Gwelir ei heisiau yn fawr a boed i'w llwch orwedd mewn tangnefedd ym mynwent Llwynceilyn.

Janem Jones

Gweddi Blwyddyn Newydd – parhad

Boed i ni geisio blaenoriaethu gwell gwerthoedd o hyn ymlaen, a dysg i ni arloesi efo patrymau newydd o feddwl wedi i'r byd cyfan gael ei siglo i'w sail yn y blynyddoedd Covid. Arloesi yn ein calonau at weithredu cyfiawn dros ein cyd-ddyn. Arloesi efo'r cariad hwnnw a ymgorfforodd Crist i fwydo a chefnogi'r newynog ac estyn 'dwylo dros y môr'. Dyrchafu'r gwan a chreu byd llai barus, hunan-ganolog.

Gadewch i ni drin ein gilydd yn dirion, fel y bwriadwyd i ni wneud ers y Dechreuad, a rhwymyn o gariad yn clymu unigolion, a chymunedau a chenedloedd. Ail-weu ffabrig cydfodolaeth y gwledydd ar y blaned fechan hon. Dathlwn y dynoldeb, a'r ofnau sy'n gyffredin rhyngom fel pobl ar hyn o bryd.

Beth am i ni gyd fod yn arloesol, a rhoi cynnig arni o'r newydd eleni eto -yn bobl ifanc, teuluoedd ifanc, rhai sydd wedi cilio? Diolch i bawb sydd yn gweithio mor galed yn ein heglwys. Gweddiwn eto eleni y bydd pobl newydd hefyd yn cynnig talentau o bob math yn i helpu Achos Crist. Yn enw Iesu. AMEN.

Aled Lewis Evans.

(allan o *Shalom*, Capel y Groes
Ebeneser Wrecsam, Rhif 503,
Ionawr a Chwefror 2024)

Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am
Sul o Fawl/Cymanfa ar yr
31 Mawrth am 4 o'r gloch
Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb.

Yr Adran Gydenwadol

‘Distawrwydd yw cyd-fynd’ – anerchiad gwynos heddwch Llangollen, 20 Ionawr

Aeth 106 o ddyddiau heibio – 106 o ddyddiau a 75 mlynedd.
106 o ddyddiau o ladd, erchyllterau a throeddau rhyfel.
106 o ddyddiau o ryfel hil-laddol.
75 mlynedd o feddiant.

Mae’n iawn ein bod ni’n sefyll yma – yn y dref sydd er 1947 wedi bod yn gartref i Eisteddfod Ryngwladol a aned o ludw yr Ail Ryfel Byd ac a gafodd ei sefydlu ar egwyddorion heddwch a chyfiawnder.

Mae’n iawn ein bod yn sefyll yma er mwyn condemnio’r bomio di-baid, diwahân ar ein brodyr a’n chwirydd Palestinaidd yn Gaza gan fyddin Israel, gyda chefnogaeth yr Unol Daleithiau a’n llywodraeth ni ein hunain yn San Steffan.

Mae hwn bellach yn rhyfel sydd mewn perygl gwirioneddol o fynd allan o reolaeth wrth i Yemen, Libanus, Syria ac Irac gael eu bomio.

Mae’n iawn inni sefyll yma a galw am gadoediad ac am ddiwedd ar y gwallgofrwydd apocalyptaidd hwn.

102 o flynyddoedd yn ôl, yn dilyn lladdfa ddisynnwyr y Rhyfel Byd Cyntaf, anfonodd plant Cymru’r ‘Neges Heddwch ac Ewyllys Da’ gyntaf i’r byd, yn galw am heddwch a diwedd ar ryfel.

Daeth hyn yn draddodiad blynyddol ac mae’n parhau hyd heddiw.

Ym 1924 – 100 mlynedd yn ôl – darlledwyd eu neges heddwch ar Wasanaeth Byd y BBC am y tro cyntaf.

Ddeufis yn ôl, ar 7 Tachwedd 2023, fe ddarlledodd grŵp arall o blant neges i’r byd.

Y tro hwn, nid Cymry oedd y plant ond Palestinaid, a chynhaliwyd cynhadledd i’r wasgy tu allan i Ysbyty Al Shifa yn ninas Gaza, yn dilyn mis o beledu di-baid oedd eisoes wedi lladd 4,000 o’u cyfoedion.

Plediodd llefarydd blêr ond balch a diysgog y grŵp, bachgen 9 oed (yn Saesneg) â’r byd i’w hamddiffyn nhw:

‘We came to shout as children, urging you all to protect us. Stop the death. We want life. We want peace. We want a trial for the killers. We want medicine. We want food. We want education. We want life.’

Ac fe wnaeth y byd eu siomi.

Mae Ysbyty Al Shifa wedi ei ddinistrio a dinas Gaza wedi ei chwalu’n yfflon.

Ac mewn cwta dri mis mae 13,000 o blant wedi’u lladd – wedi’u rhwygo’n ddarnau wrth iddynt gysgu, chwarae, bwyta, gweddio, cuddio rhag y bomiau mewn mannau y credent oedd yn ddiogel iddynt.

Fe wnaeth y byd eu siomi.

Tybed beth fyddai’r plant hynny a ysgrifennodd y neges gyntaf honno o heddwch dros 100 mlynedd yn ôl yn ei feddwl?

Rwy’n meddwl bod y byd wedi eu siomi hwythau hefyd.

Mae’n iawn inni sefyll yma i alaru am y 13,000 o blant hynny a’r 17,000 o ddynion a merched a laddwyd yn ystod y tri mis diwethaf.

Bûm ym Mhalestina yn ddiweddar, yn beicio ar draws y Lan Orllewinol i godi arian ar gyfer yr elusen Medical Aid for Palestinians. Hwn oedd fy mhedwrydd ymweliad.



Llun: Llun: Cymorth Cristnogol

Roeddwn i yn y rhan sydd wedi ei meddiannu o ddwyrain Jerwsalem ar fore’r 7 Hydref.

Deffrôdd ein grŵp i sŵn seirenau cyrch awyr, ffrwydradau rocedi’n glanio 10–15 milltir i ffwrdd a system amddiffyn taflegrau ‘Iron Dome’ Israel.

Gallem weld y rocedi uwchben. Clywsom danio gynnu o wrthdaro mewn strydoedd heb fod yn rhy bell o’n gwesty, oedd 300 metr oddi wrth fosc Al Aqsa.

Roedd yn frawychus, yn swreal ac yn annifyr.

Yn ystod ein hamser yn y Lan Orllewinol yn seiclo o Jenin i Jerwsalem drwy Nablus, Ramallah, Jericho, Bethlehem a Hebron, gwelsom drosom ein hunain system apartheid Israel o ddad-ddyneiddio, bychanu, o ormes, trais, creulondeb a chosb dorfol. System a luniwyd cyn 7 Hydref.

Ar ein diwrnod cyntaf un o feicio, fe wnaethon ni reidio i gwmwl o nwy dagrau wrth i ni nesáu at dref fechan Sebastia ger Nablus, dinas sydd dan warchae. Mae Sebastia’n un o’r trefi hynaf ar y Lan Orllewinol lle mae pobl wedi bod yn byw yn ddi-dor, a dyma fan claddu Ioan Fedyddiwr. Mae ymsefydlwyr anghyfreithlon ac eithafol dan warchodaeth byddin Israel yn aml yn meddiannu’r dref.

Wrth i ni nesáu ati, i fyny llethr serth, teimlais fy mrest yn tynhau, llosgi yn fy ngwddf, ac yna dechreuodd fy llygaid a’m hwyneb bigo. Roedd milwyr Israel wedi tanio nwy dagrau at ieuencid Sebastia. Roedden nhw’n protestio yn erbyn y ffaith fod sgwâr eu tref wedi ei meddiannu gan wladychwyr arfog Israelaidd gyda milwyr yn eu cefnogi, a ninnau wedi cyrraedd tua diwedd y digwyddiad.

Mae’n anodd gwybod ble i ddechrau wrth sôn am yr hyn sydd wedi digwydd yn Gaza ers 7 Hydref. Mae’r erchyllterau annisgrifiadwy yn ein gadael mewn cyflwr o anghrediniaeth.

Mae’r difrod difrifol a wnaed gan daflegrau Israel i seilwaith hanfodol y cyfleusterau yn llain Gaza yn echrydus. Mae seilwaith gofal iechyd llain Gaza yn cael ei ddileu’n fwrriadol. Ar 6 Hydref roedd 36 o ysbytai’n weithredol yn Gaza. Heddiw does yna ddim un. Clywn am feddyg yn torri troed ei ferch ei hun i ffwrdd. Heb anaesthetig.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Distawrwydd yw cyd-fynd
– gwynnos heddwch Llangollen, 20 Ionawr
(parhad o dudalen 1)*

Beth ddigwyddodd inni fel ein bod yn caniatáu hyn? Mae teuluoedd cyfan yn cael eu lladd yn ddiarbed. Cymdogaethau cyfan yn cael eu dinistrio. Plant yn casglu rhannau o gyrff eu perthnasau meirw i fagiau plastig i'w claddu. Plant ifanc yn cael eu gorfodi i fagu eu brodyr a'u chwiorydd eu hunain wrth i'w mamau a'u tadau gael eu lladd.

Beth ddigwyddodd inni fel ein bod yn caniatáu hyn?

Caiff Palestinaid eu llwgu i farwolaeth. Mae afiechydon marwol yn carlamu drwy wersylloedd allochesidrosdro, a'u trigolion ofnus a blinedig yn crymu mewn ofn rhag y bomio di-baid. Rhybuddia arbenigwyr ni y bydd mwy yn marw o afiechyd, newyn, a bod heb gysgod nag sydd wedi cael eu lladd gan fomiau a thaflegrau. Mae hynny'n 30,000 mwy o farwolaethau o leiaf. Gallai nifer terfynol y marwolaethau gyrraedd cannoedd o filoedd – 10–20 y cant o boblogaeth Gaza.

Fel y dywed y Palestinaid wrthym – mae pethau'n gwaethgu bob dydd.

Adeg y Nadolig, cafwyd pregeth gan un o offeiriad Bethlehem, y Parchedig Munther Isaac – ffrind a chymydog i Nidal, ein tywysydd ar y daith feics o gwmpas Palestina. Pery ei neges mor ingol yn awr â phan gafodd ei thraddodi:

“Mae'r rhyfel hwn wedi cadarnhau i ni nad yw'r byd yn ein gweld ni'n gyfartal. Efallai mai lliw ein croen ydy o. Efallai ei fod oherwydd ein bod ar ochr anghywir yr hafaliad gwleidyddol. Ni wnaeth hyd yn oed ein perthynas yn nheulu Crist ein cysgodi.

“Rydym wedi ein cythruddo gan y modd mae'r eglwys wedi cyd-fynd efo'r hyn sydd wedi digwydd. Bydded yn eglur: distawrwydd yw cyd-fynd, ac mae galwadau gwag am heddwch heb gadoediad a diwedd ar y meddiant, a geiriau arwynebol o empathi heb weithredu uniongyrchol — i gyd dan faner y cyd-fynd hwn.

“Felly fy neges i chi yw hyn: Gaza heddiw yw cwmrawd moesol y byd. Roedd Gaza yn uffern ar y ddaear cyn 7 Hydref.

“Os nad ydych yn cael eich arswydo gan yr hyn sy'n digwydd, os na chewch eich ysgwyd hyd eich sail, mae rhywbeth o'i le ar eich dynoliaeth.

“Os nad ydym ni, fel Cristnogion, yn cael ein cynddeiriogi gan yr hil-laddiad hwn, a'r defnydd o'r Beibl fel arf i'w gyfiawnhau, y mae rhywbeth o'i le ar ein tystiolaeth Gristnogol, ac mae hygyrdd yr Efengyl mewn perygl!

“Os na fyddwch yn galw hyn yn hil-laddiad, yna holwch eich cydwybod. Mae'n bechod ac yn dywyllwch yr ydych yn fodlon ei gofleidio.

“Mae'n flin gen i drosoch chi. Fe fyddwn



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APImages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons

rydym wedi'i dioddef, fe ddown ni drwyddi. Byddwn yn codi ac yn sefyll ar ein traed eto o ganol dinistr, fel yr ydym bob amser wedi'i wneud fel Palestinaid, er mai dyma'r ergyd fwyaf o bell ffordd a gawsom ers amser maith.

“Ond eto, yn achos y rhai sy'n cyd-fynd â hyn, yr wyf yn teimlo trueni drosoch. A fyddwch chi byth yn goresgyn hyn?

“Ni fydd eich elusen, eich geiriau o syndod AR ÔL yr hil-laddiad, yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Ni fydd geiriau o edifeirwch yn ddigon. Ni fyddwn yn derbyn eich ymddiheuriad ar ôl yr hil-laddiad.

“Rwyf am i chi edrych yn y drych ... a gofyn: ble roeddwn i pan oedd hil-laddiad yn digwydd yn Gaza?”

Allwn ni ddim eistedd yn ôl a gwneud dim tra mae hil-laddiad yn cael ei ffrydio'n fyw o'n blaenau. Rydym ni oll dan ddyletswydd a rhwymedigaeth i weithredu i'w atal.

Yn yr 1980au, safodd pobl Cymru ysgwydd wrth ysgwydd â phobl dduon o dde Affrica yn erbyn y system apartheid greulon. Trwy brotestiadau a boicotio, fe wnaethom helpu i ddod â'r system ormesol honno i ben.

A phan ddaeth Nelson Mandela i Gymru ym 1998 ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, diolchodd i bobl Cymru am ein cydsafiad wrth helpu i ddod â diwedd ar apartheid.

Ac fel y dywedodd Mandela ychydig fisoedd ynghynt: “Rydym yn gwybod yn rhy dda bod ein rhyddid yn anghyflawn heb ryddid y Palestinaid.”

Felly, yn awr, yn 2024 mae'n ddyletswydd arnom i wrando ar alwad y Palestinaid am ddadfuiddsoddi, boicot a sancsiynau i ddod â'r system apartheid a'r rhyfel hil-laddol hwn i ben.

Barclays, McDonalds, Starbucks, ac enwi ychydig yn unig.

Protestiwr, gorymdeithiwr, cerddwch allan o'r gwaith.

Roedd 2023 yn flwyddyn wirioneddol erchyll i Balestinaid; eleni mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i ddod â'r rhyfel cywilyddus hwn yn erbyn sifiliaid, ysbytai, gofal iechyd, y rhyfel hwn yn erbyn nllant i ben.

Rhaid inni bwysu ar ddewrder, gwrthwynebiad, gobaith a phenderfyniad pobl Palestina a defnyddio ein lleisiau i ddal ein harweinwyr gwleidyddol yn gyfrifol a dod â phwysau arnynt i weithredu.

Rhaid inni fynnu eu bod yn galw am gadoediad parhaol yn awr ar unwaith a chaniatáu mynediad cyson i gymorth dyngarol brys.

Fodd bynnag, mae'r gofynion hyn yn annigonol ar eu pen eu hunain. A chyda llaw, mae hyd yn oed y gofynion hyn – y lleiafswm posib – yn ymddangos y tu hwnt i allu pawb ac eithrio lleiafrif egwyddorol o'n cynrychiolwyr etholedig.

Pleidleisiodd cynifer o'n Haelodau Seneddol yn erbyn cadoediad. Cywilydd arnyn nhw.

Ac yma yng Nghymru, lle cafodd pleidlais yn galw am gadoediad ei chefnogi gan Senedd Cymru, fe wnaeth llawer ymatal a phleidleisio yn erbyn hynny. Cywilydd arnyn nhw.

Dylid atgoffa'r rhai wnaeth ymatal o eiriau Desmond Tutu:

“Os ydych chi'n niwtral mewn sefyllfaoedd o anghyfiawnder, rydych chi wedi dewis ochr y gormeswr.”

Felly mae'n rhaid i ni hefyd alw am erlyn pawb sy'n gyfrifol am droseddau yn erbyn y ddynoliaeth, troseddau rhyfel a hil-laddiad, neu'n eu cefnogi. Rwy'n cynnwys yma fethiant y llywodraeth yn San Steffan i atal yr hil-laddiad ac iddynt wadu eu cyfrifoldeb wrth beidio â galw am gadoediad.

Rhaid rhoi diwedd ar y meddiant, diwedd ar y gwladychu. Rhoi'r hawl i'r Palestinaid sydd wedi'u dadleoli o'u cartrefi fynd yn ôl adre. A chydweithio â'r Palestinaid i weld Palestina rydd.

Rhaid i'n cydsefyll fod yn ystyrlon. Ni cheir heddwch heb gyfiawnder. Galwn am gadoediad nawr, am ryddid i Balesteina!

David McKnight

(Mae David yn ymwelydd cyson â Phalesteina a thiroedd y meddiant ac yn gweithio fel swyddog undeb llafur.)

Gair Duw ar Waith

gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 19
Caplaniaeth Ysbyty
Sul, 4 Chwefror

Gweddi
Dduw pob gofal a chefnogaeth, diolchwn i ti am y diwrnod a'i gyfleoedd newydd. Helpa ni i ddarllen y ddameg ac i werthfawrogi dy fod yn gweld y claf ym mhob cymdeithas. Trugarha wrthym yn ein gwendid. Amen.

Darlleniad: Marc 9: 14–29 Iacháu plentyn

Cyflwyniad
Ceir nifer o enghreifftiau lle daw rhywun â chlaf at Iesu a gofyn am ei fendith. Dro arall, bydd y claf ei hun yn galw am help neu bydd Iesu yn gweld claf ac yn gweithredu mewn trugaredd. Mae'r gwyrthiau iacháu hyn yn dangos y bu iddynt adael argraff fawr ar y disgyblion, a rannodd yr hanesion ddegawdau yn ddiweddar. Bydd gan ambell berson y ddawn i ryddhau poen neu ddeall tyndra cyhyrau, ond prin fod unrhyw un ar lwyfan hanes yn medru gwneud yr hyn a wnaeth Iesu.

Nid oes modd gwybod sawl gwyrth iacháu a gyflawnodd Iesu yn ystod tair blynedd o weinidogaeth ar y ddaear. Felly, gofynnwn beth oedd amcan yr Efengylwyr wrth ddethol yr enghreifftiau a gawn? Yn yr hanes hwn dangosir nad drwy drafod ond drwy arfer ffydd yr oedd Iesu yn cyflawni'r hyn a nodir fel gwyrth. 'O chwi o ychydig ffydd' oedd ei ymateb i Iddewiaeth ei ddydd. Bydd amryw o feddygon trwyddedig yn y

byd yn cydnabod bod y Weinidogaeth iacháu wedi cyflawni'r hyn na all ysbytai ei wneud, er y gwyddom am feddygon disglair yn gweddïo wrth erchwyn gwelyau cleifion hefyd.

Bu pobl glaf erioed, ac yn ein dyddiau ni byddwn yn ddiolchgar am feddygon a nyrsys sy'n gweithio mewn ysbytai neu yn y feddygfa leol. Rhyfeddwn hefyd at ddoniau'r rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil gan ddarganfod cyffuriau newydd a thriniaethau gwahanol.

Myfyrdod
Ynghanol bwrllwm y byd meddygol, ceir llu o weithwyr pwysig sy'n helpu'r gwasanaeth i ddarparu ar gyfer y claf. Diolchwn am y gweinyddwyr, y glanhawyr a'r bobl sy'n cludo cleifion oddi mewn i'r ysbytai. Diolch am yrwyr ambiwlans a'r bobl sydd gyda'r cyntaf i ymateb pan fydd galwad frys. Diolch hefyd am y caplaniaid sydd bellach yn gweithio, yn amlach na pheidio, i'r Awdurdod Iechyd, ond sy'n annibynnol o'r ddarpariaeth feddygol uniongyrchol. Ceisir sicrhau caplaniaid o bob haen enwadol ac maent yn derbyn hyfforddiant i'w cynnal yn y gwaith. Byddant yn gorfod bod yn wrandawyr da ac yn derbyn ymddiriedaeth lwyr y claf, a hynny heb fodd o'i adnabod cynt. Cynhelir oedfaon yn gyson yn y capel neu ystafell benodol ar gyfer addoliad a myfyrdod, a bydd y caplan yn cynnig defosiwn a chymun i'r claf sydd angen hynny.

Fel caplaniaid eraill mewn diwydiant, carchardai a'r lluoedd arfog, bydd y caplan angen doethineb ac adnoddau arbennig i gwrdd â'r sefyllfaoedd hynny. Nid pob gweinidog sy'n gyfaddas â'r gofyn, ac mae'r angen yn sylweddol, yn arbennig os yw'r claf ymhell o'i gartref a'i weinidog yn methu bod yno ar awr y pryder mawr. Dyma weinidogaeth sy'n gwasanaethu eraill yn enw Iesu, drwy gynnig neu gadarnhau ffydd a chalonogi claf, beth bynnag ei amgylchiadau.

Gweddi
Diolch, Arglwydd, am bob caplan ysbyty sy'n medru sôn amdanat yn dyner a chyda dwyster. Nid oes modd i ni wybod beth yw natur y weinidogaeth hon heb ein bod yn dystion iddi, a gweddïwn dros y gwŷr a'r gwagedd sy'n gaplaniaid yn dy enw di ymysg cleifion a staff ein hysbytai. Bugeilia hwy drwy dy Ysbryd. Amen.

- Cwestiynau i'w hystyried**
1. Pan fydd pobl resymol yn dweud nad ydynt yn Gristnogion oherwydd iddynt fethu derbyn bod y gwyrthiau wedi digwydd, beth a ddywedwn?
 2. Ai gallu ymenyddol ambell un yw'r rhwystr pennaf i dderbyn Duw?
 3. Wrth ryfeddu at allu dyn, a oes perygl inni golli golwg ar aruthredd gallu Duw?
 4. Sut byddwn yn amgyffred 'ysbryd aflan' heddiw?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 4 Chwefror am 7.30yh
Diwrnod Cancr y Byd
Ar Ddiwrnod Cancr y Byd, mae Lisa Gwilym yn cwrdd â Guto Morgan Jones o Ynys Môn, gŵr ifanc a drechodd salwch difrifol. A chawn berfformiad o glasur Eric Jones, 'Y Tangnefeddwyr'.

 radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 4 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Anna Jane Evans
Oedfa Radio Cymru
Sul, 4 Chwefror, am 12yp
Oedfa dan ofal Aled Wyn Williams, Llanllwni

Evan John Roberts, Y Diwygiwr, 1878–1951

Diwygiwr

Un o'r diwygiadau cyffredinol mwyaf yn hanes Cymru oedd Diwygiad 1904–05.

Ymledodd o Gymru ledled y byd gan gychwyn diwygiadau mewn gwledydd eraill. Er y bu llawer o Gristnogion yn flaengar yn y gwaith, wyneb cyhoeddus y diwygiad oedd Evan Roberts.



gweiddi ar Dduw, 'Plyg fi; plyg fi; plyg ni!' Yr oedd hwn yn brofiad allweddol yn ei bererindod ysbrydol: llanwyd ef â'r Ysbryd Glân a datblygodd sêl i efengylu dros Grist.

Cynnau'r tân

Dychwelodd i Gasllwchwr i genhadu lle cafwyd cyfarfodydd gwllthog a chyffrous, ac o'r fan honno ymledodd diwygiad ysbrydol cyffredinol trwy Gymru ac yn wir i tu hwnt i'w ffiniau i wledydd ar hyd a lled y byd, megis Ffrainc, yr Almaen, India ac Ariannin. Evan Roberts

oedd ffigwr amlycaf y diwygiad a barhaodd o Dachwedd 1904 hyd Ionawr 1906. Aeth ar saith ymgyrch: y tair cyntaf i Forgannwg, yna Lerpwl, sir Fôn, y Bala a sir Gaernarfon. Cafodd sylw mawr yn y papurau newydd a byddai newyddiadurwyr yn ei ddilyn i bobman gan gofnodi ei eiriau a'i ymddygiad.

Dylanwad da

Amrywiai'r ymateb i Evan Roberts yn ystod y diwygiad. Mewn rhai mannau cafodd groeso gwresog, tra mewn mannau

eraill daeth o dan lach arweinwyr Cristnogol. Gwnaeth lawer o les i'r eglwysi er iddo gael ambell i gam gwag ynghanol gwres teimladol y diwygiad. Heb os bu effaith y diwygiad yn fawr. Yng Nghymru cafodd miloedd dröedigaethau wrth iddynt ddod i gredu yn Iesu Grist fel Gwaredwr; tyfodd aelodaeth eglwysig, rhoddwyd lle pwysicach i ferched yng ngweithgareddau'r eglwysi, a chodwyd to newydd o arweinyddion a chenhadon. Y mae peth o ddylanwad y diwygiad yn parhau hyd heddiw o fewn i eglwysi, mewn unigolion a theuluoedd. Yn ogystal â hyn esgorodd ar gyrff Cristnogol newydd fel yr Eglwys Apostolaidd a mudiad y 'four-square' Elim a ymledodd trwy'r byd.

Pylu

Pan ddaeth y diwygiad i ben, pylodd y tân fu'n llosgi mor danbaid yn Evan Roberts ac ni fu iddo'r un dylanwad byth wedyn. Llogodd yn eirias am gyfnod byr ac yna cafodd nodedd yng nghartref Mrs Jessie Penn-Lewis yng Nghaerlŷr. Diflannodd o lygaid y cyhoedd, er iddo ymddangos yn ysbeidiol mewn cyfarfodydd yng Nghymru rhwng 1925 a 1930. Yn ddiweddarach cafodd lety gyda chyfeillion ym Mhorth-cawl a Rhiwbeina, Caerdydd. Bu farw yng Nghaerdydd ar 29 Ionawr 1951 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Moriah, Casllwchwr, lle y dadorchuddiwyd cofeb iddo ym 1953.

Cefndir

Ganed ef ar 8 Mehefin 1878 yn Island House, Bwlchmynydd, Casllwchwr, Morgannwg, yn fab i Henry a Hannah Roberts. Bu'n gweithio fel glöwr yng Nghasllwchwr ac Aberpennar pan oedd yn ieuanc a phrentisiwyd ef yn of ym 1902. Bu tanchwa un diwrnod, pan nad oedd yn gweithio yn y pwll, ac fe gafwyd hyd i'w Feibl – a gadwai yn y pwll – ag effeithiau'r tân arno. Mae'r Beibl i'w weld hyd heddiw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Yr oedd yn ddyd ieuanc dawnsus a gweithiodd yn ddygyn i addysgu ei hun. Byddai'n cael profiadau ysbrydol cyfriniol ar adegau a thystiodd ei fod wedi gweddio am dair blynedd ar ddeg am ddiwygiad yng Nghymru. Roedd yn aelod ffyddlon yn Moriah, eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Casllwchwr, ac yn athro ysgol Sul.

Hyfforddiant

Ei hoff lyfrau oedd y Beibl, *Hyfforddwr*, Thomas Charles, *Taith y Pererin*, John Bunyan a'r llyfr emynau. Dechreuodd bregethu ym 1903 a derbyniwyd ef yn ymgeisydd am y weinidogaeth gan y Methodistiaid Calfinaidd. Yn Medi 1904 aeth i ysgol John Phillips, Castellnewydd Emlyn, i gael ei hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Ar y pryd yr oedd symudiad ysbrydol grymus ymhlith ieuenctid yr ardal honno a gychwynnodd yng Ngheinewydd o dan arweiniad Seth Joshua a chofiodd hwnnw ddylanwad trwm ar Evan Roberts. Un diwrnod wrth i Seth Joshua ollwng y gynulleidfa trwy weddi ar derfyn oedfa ym Mlaenannerch daeth Evan Roberts o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân. Syrthiodd ar ei liniau a

✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddio ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦
✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

Dyddiadau:

08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

Amser:

7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

Lleoliad:

Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

Dyddiad	Testun	Arweinydd
Chwefror 5	Pregethu	Parchedig Robin Samuel
Chwefror 19	Beth yw Eglwys	Parchedig Carwyn Siddall
Mawrth 4	Gwaith Plant ac Ieuenctid	Parchedig Owain Davies
Mawrth 18	Gwedd Ddigidol Eglwys	Rhodri Darcy


Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr

Barn Annibynnol

Deled dy deyrnas

Eleni, yn ail hanner ein tymor fe fydd Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli yn trafod cynnwys Gweddi'r Arglwydd. Mae'n gymdeithas yn arbennig ac yn gynhaliath lle rydym yn cynnal breichiau ein gilydd. Fi fydd yn agor y drafodaeth yng nghyfarfod Chwefror ar yr adnod 'deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.' Felly dewch i ni drafod yn yr ysgrif hon peth o ddysgeidiaeth Iesu am deyrnas Dduw ein Tad.

Fe ddysgodd Iesu ein bod fel ei ddilynwyr i weddio am ddyfodiad y deyrnas, er iddo dro arall ddweud fod y deyrnas wedi dod gyda'i ddyfodiad yntau – 'os trwy fys Duw yr wyf fi'n bwrw allan gythreuliaid yna y mae teyrnas Dduw wedi cyrraedd atoch.' (Luc 11:20) Mae amryw o baradocsau ynghylch 'teyrnas Dduw' yn nysgeidiaeth Iesu. Gwelwn o ddarllen yr Efengylau fod Iesu yn sôn am realiti'r deyrnas yn y presennol a hefyd ei bod i ddod yn ei llawnder yn y dyfodol; gallwn gasglu bod ymdeimlo â realiti'r deyrnas yn brofiad personol ac eto ei bod i'w chymhwyso yn gymdeithasol o ran ei harwyddocâd; bod y deyrnas yn ysbrydol yn ei hanfod ac eto bod iddi oblygiadau ymarferol ac economaidd. Y mae cymaint o wahanol onglau i'r drafodaeth pan drafodwn 'deyrnas Dduw'.



Adnodau dryslyd!

Adnodau sydd wedi bod yn agored i ddehongliadau gwahanol ynghylch teyrnas Dduw yw Luc 17:20–21. 'Gofynnwyd iddo gan y Phariseaidd pryd y deuai teyrnas Dduw. Atebodd Iesu hwy "Nid rhywbeth i wyllo amdano yw dyfodiad teyrnas Dduw. Ni bydd dynion yn dweud, 'Dyma hi', neu 'Dacw hi';

edrychwch, y mae teyrnas Dduw yn eich plith chi' neu, fe ellid cyfieithu, 'o'ch mewn' neu 'o fewn eich cyrraedd'. Ac mae'n debyg y gall fod pob un o'r cyfieithiadau hyn yn gywir.

Y mae teyrnas Dduw o'ch mewn

Gan fod cael profiad byw a phersonol o Grist sy'n esgor ar ffydd sy'n diwygio yn foesol ('O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof i, daeth Iesu i'm calon i fyw ...') yn bwysig, rwy'n hoffi fy hunan y dehongliad fod 'teyrnas Dduw o'ch mewn.' Gellid cyplysu hyn â dysgeidiaeth Iesu am angenrheidrwydd profi'r ailenedigaeth, y geni o'r newydd neu oddi uchod, trwy breswyliaid ysbryd Duw yn y galon. Meddai Iesu wrth Nicodemus 'Cred fi – ni all neb weld Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni oddi uchod.' (Ioan 3:3 beibl.net). Ai dyma oedd gan Elfyn Jones mewn golwg pan ganodd, 'O doed dy deyrnas, nefol Dad yw'n gweddi daer ar ran pob gwlad; dyfodiad hon i galon dyn a ddwg genhedloedd byd yn un'? 'Ganwyd ef, O ryfedd drefn,' meddai Charles Wesley 'fel y genid ni drachefn!' Ac fe ganodd O. M. Lloyd yn ei englyn 'Geni Ofer':

Er geni yr lôr ganwaith – a'i Fethlem
iddo'n faethle filwaith,
oni enir hwn unwaith
yn dy fron caed ofer waith.

Ie mae bod teyrnas Dduw trwy ysbryd Crist wedi ei eni ac yn preswyllo yn y galon – ynom ni – yn hanfodol. Ond nid yw hynny'n dweud y cyfan. Mae angen cydbwysedd wrth gymhwyso neges Efengyl Crist.

Tensiynau diangen

Tuedd rhai Cristnogion sy'n dehongli dyfodiad y deyrnas yn rhy bersonol ydi bod yn rhy unigolyddol yn eu dealltwriaeth a'u dehongliad o ddyfodiad a grym teyrnas Dduw, gan fod yn ddibris, os nad yn ddirmygus, o bwyslais y rhai sy'n gweld yr angen i gymhwyso'r Efengyl yn gymdeithasol wrth feddwl am les tymhorol pobl yn y byd hwn. Bu cryn ddadlau ymhlith Cristnogion rhwng y rhai sy'n pwysleisio gwerth dehongli'r efengyl yn gymdeithasol a'r rhai sy'n canoli ar yr angen fod pobl yn profi trôedigaeth er mwyn medru byw'r bywyd newydd yng Nghrist. Ond y gwir yw bod y ddwy wedd yn bwysig, yn wir yn hanfodol, ac na ddylai'r naill neu'r llall o'r dehongliadau gael y flaenoriaeth.

Y gwir yw bod y tair ffordd o gyfieithu Luc 17:20–21 yn gywir ac yn angenrheidiol wrth feddwl am dystio i efengyl Crist. Dysgodd Iesu ein bod i 'geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.' Ac os na safwn i fyny a gwrthwynebu'r hyn sy'n anghyfiawn mewn bywyd, a sefyll, er enghraifft mewn cydymdeimlad gyda'r is-bostfeistri sydd wedi cael cam gan y Swyddfa Bost, a dadlennu trachwant y cyfoethog a'r

pwerus, a gwrthwynebu y lladd a'r trais yn Wcráin, Israel a Llain Gaza, yna pa obaith sydd y caiff pobl fwynhau'r pethau y mae Duw am i ni i'w cael a'u mwynhau, bendithion teyrnas Dduw – tegwch, safon byw foddhaol, rhyddid rhag gorthrwm a heddwch yn ein cymdeithas a'n byd.

Bod â'n traed ar y ddaear

Bwriad Duw yw i bawb fwynhau iechyd a bywyd llawn ym mhob man ac ym mhob oes. Prin y gallwn ni wadu hyn wrth sylwi ar fywyd ac esiampyl yr Iesu. Wrth y term 'teyrnas' ni feddylodd Iesu am y deyrnas yn nhermau tiriogaeth neu ymerodraeth ddaearol ond yn hytrach fel llywodraeth a theyrnasiad Duw yng nghalonau, meddyliau ac ewyllys pobl. O fyw bywyd yn ufudd yn ein perthynas â dysgeidiaeth Crist y mae'n amlwg fod ein bywydau a'n tystiolaeth fel Cristnogion, yn nhermau halen a goleuni yn y byd hwn, i effeithio, nid yn unig ar ein perthynas fel unigolion gyda Duw, ond ar ein perthynas â phobl o'n hamgylch, ein cymdeithas a'n byd. Y mae mawr angen arnom i gymhwyso egwyddorion teyrnas Dduw yn ein bywydau a'n byd. 'Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.'

Emyr Gwyn Evans

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blyneddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Ffynhonnau Byw

Tybed pa weithgareddau sydd ar y gweill yn
eich eglwys chi er mwyn codi arian tuag at
Apêl Colombia, Undeb yr Annibynwyr?

Hoffem wybod gennych beth sydd yn
digwydd yn eich plith. Beth am anfon llun
i'r Tyst gydag ychydig o wybodaeth am eich
gweithgareddau? Y mae hon yn ffordd i
rannu syniadau amrywiol ac i annog ein
gilydd i godi llond trol o arian tuag at y
tldion a'r anghenus.

Neu os oes gennych ddigwyddiad yn y
dyfodol agos beth am anfon hysbyseb atom
er mwyn i ni roi cyhoeddusrwydd i'ch
ymdrech a hynny yn rhad ac am ddim.



Yemen

Yn sgil y bomio erchyll sydd wedi
digwydd yn Yemen, dyma ychydig o
wybodaeth am y wlad o lyfryn elusen
Open Doors.

POBLOGAETH

31.2 miliwn / ychydig filoedd o
Gristnogion

ARWEINYDD

Yr Arlywydd Rashad al-Alimi

Sgôr erledigaeth

Rhif 3 yn rhestr erledigaeth Open Doors
Mae Yemen yn wlad lwythol iawn.
Mae'n anghyfreithlon troi oddi wrth
Islam at Gristnogaeth. Mae Cristnogion
mewn perygl o gael eu diarddel, eu
halltuduo neu hyd yn oed eu lladd gan eu
teuluoedd, eu claniau a'u llwythau.

Mae grwpiau Islamaidd eithafol yn
bygwth gwrthgilwyr honedig â
marwolaeth os nad ydynt yn dychwelyd
at Islam. Mewn ardaloedd sydd o dan
reolaeth Houthis Islamaidd, mae
credinwyr mewn perygl o gael eu
carcharu. Adroddwyd am Gristnogion
mewn canolfannau cadw yn cael eu
poenydio'n gorfforol ac yn feddyliol.

Mae Open Doors yn darparu cymorth
a llenyddiaeth Gristnogol, a lloches,
amddiffyniad a hyfforddiant ar ennill
bywoliaeth i gredinwyr dan erledigaeth
a'u perthnasau.

GWEDDŪWCH

- Dros gredinwyr cudd sy'n dewis dilyn
Crist er gwaetha'r peryglon
- Y bydd cymorth dyngarol yn cyrraedd
pawb sydd mewn angen, gan gynnwys y
rhai ar gyrion cymdeithas
- Y bydd Duw yn newid yr awyrgylch o
graffu a drwgdybiaeth fel bod pob
Ymeni yn gallu byw yn ddiogel

UNDEB YR
ANNIBYNWYR CYMRAEG

Hysbyseb Swydd

Ysgrifennydd Gweinyddol

Llawm-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?
Dyma gyfle cyffrous i berthyn
i dîm blaengar sy'n gweinyddu
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau
i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r
Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu
perthynas gydag eglwysi ar
faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws
elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed
gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr
neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r
swydd, cysylltwch â'r

Ysgrifennydd Gweinyddol
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes
Glanyrafon, Bro Abertawe,
ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888

E-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau: 12 Chwefror 2024